Home Office

# DIWYGIADAU I DDEDDF GWRTHDERFYSGAETH, TROSEDD A DIOGELWCH 2001

## PAPUR YMGYNGHORI

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYNNWYS | 3 |
| CRYNODEB | 1 |
| CYFLWYNIAD | 3 |
| SUT I YMATEB | 4 |
| RHAN 1: RHEOLAETHAU PRESENNOL | 5 |
| RHAN 2: BYGYTHIAD TERFYSGAETH I'R DU | 8 |
| RHAN 3: YR ADOLYGIAD | 9 |
| RHAN 4: OPSIYNAU | 10 |
| ATODIAD A - Y SAITH MAEN PRAWF YMGYNGHORI | 13 |
| ATODIAD B | 15 |
| SAIL DYSTIOLAETH (AR GYFER TAFLENNI CRYNODEB) | 27 |
| ATODIAD 1: CYNLLUN YR ADOLYGIAD ÔL-WEITHREDU (PIR) | 34 |
| ATODIAD 2. PROFION EFFAITH PENODOL | 35 |

# CRYNODEB

## CWMPAS YR YMGYNGHORIAD

| | |
|---|---|
| **Pwnc yr ymgynghoriad hwn** | Sut i ddiwygio'r rhestr o Bathogenau yn Atodlen 5 Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001. |
| **Cwmpas yr ymgynghoriad hwn** | Cael barn ar gostau a buddiannau'r opsiynau a nodwyd ar gyfer diwygio'r rhestr. |
| **Cwmpas daearyddol** | Cymru, Lloegr a'r Alban |
| **Asesiad o effaith** | Mae asesiad o effaith wedi'i atodi. |

## GWYBODAETH SYLFAENOL

| | |
|---|---|
| **I** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bawb, ond hoffem glywed yn benodol gan labordai sy'n trin/storio pathogenau, cynghorwyr diogelwch gwrthderfysgaeth (CTSAs) lleol, heddluoedd ac ymddiriedolaethau iechyd. |
| **Hyd** | Tan 17 Mehefin 2011 |
| **Ymholiadau** | CBRNE Unit<br>Home Office<br>Office for Security and Counter Terrorism<br>5th Floor, Peel Building<br>2 Marsham Street<br>London SW1P 4DF<br>Ffôn: 020 7035 0896<br>E-bost: public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk |
| **Sut i ymateb** | Cyfeiriad post fel uchod.<br><br>E-bost: ATCSAconsultation@homeoffice.x.gsi.gov.uk |
| **Ffyrdd eraill o gymryd rhan** | Bydd hwn yn ymarfer ymgynghori ysgrifenedig. Cysylltwch ag Uned CBRNE (gweler uchod) os oes angen copi o'r papur hwn arnoch ar unrhyw fformat arall, fel copi Braille, copi print bras neu gopi sain. |
| **Ar ôl yr ymgynghoriad** | Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion cyn y caiff unrhyw gamau pellach eu cymryd neu ochr yn ochr â hwy. |

## CEFNDIR

| | |
|---|---|
| **Cyrraedd y cam hwn** | Adolygodd grŵp o arbenigwyr o bob rhan o'r Llywodraeth a'r byd academaidd y ddeddfwriaeth gyfredol. Gwnaed argymhellion i ddiwygio'r rhestr o sylweddau. |
| **Ymgysylltu blaenorol** | Mae gweinidogion a swyddogion wedi bod yn trafod maint y broblem a'r opsiynau posibl gyda rhanddeiliaid. |

# CYFLWYNIAD

Diben y papur ymgynghori hwn yw ceisio barn ar ddiwygio'r rhestr o bathogenau yn Atodlen 5 sy'n dod o dan Ran 7 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 (y Ddeddf) (sydd ar gael yn http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2001/ukpga_20010024_en_1). Mae'n amlinellu'r rhestr a'r rheolaethau presennol a'r hyn sy'n hysbys am y bygythiad y caiff pathogenau a thocsinau eu defnyddio at ddibenion terfysgol yn y DU. Mae'r prif bapur yn trafod yr opsiynau ar gyfer diwygio'r rhestr ac yn ceisio barn ar y camau gorau i'w cymryd.

Gellir llwytho'r papur hwn i lawr o www.homeoffice.gov.uk.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori, a nodir y meini prawf ar ei gyfer yn atodiad A y papur.

Ceir asesiad o effaith yn **atodiad B.**

Mae'r Llywodraeth yn croesawu barn hyddysg gan bawb ac felly mae'n gwahodd ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Mehefin 2011. Disgwylir y caiff crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi cyn y caiff unrhyw gamau pellach eu cymryd neu ochr yn ochr â hwy, a bydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

# SUT I YMATEB

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 17 Mehefin 2011.

Gallwch anfon eich sylwadau atom drwy e-bost i: ATCSAconsultation@homeoffice.x.gsi.gov.uk

Neu gallwch ysgrifennu atom yn:
CBRNE Unit
Home Office
Office for Security and Counter Terrorism
5th Floor, Peel Building
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

Gellir llwytho copïau ychwanegol o'r papur hwn i lawr o'n gwefan yn www.homeoffice.gov.uk/cymraeg.

## FFORMATAU ERAILL

Dylech hefyd gysylltu â'r Uned Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear a Ffrwydrol (CBRNE) os oes angen copi o'r papur ymgynghori hwn arnoch ar unrhyw fformat arall, fel copi Braille, copi print bras neu gopi sain.

## YMATEBION: CYFRINACHEDD AC YMWADIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y Llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

At hynny, gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

**Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol,** dylech wybod, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu egluro i ni pam y teimlwch fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y caiff y wybodaeth ei chadw'n gyfrinachol ymhob achos. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried ynddo'i hun yn rhwymol i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych am i'ch ymateb a'ch enw gael eu cadw'n gyfrinachol, dylech nodi hynny'n glir yn eich ymateb.

Caiff ymatebion cyfrinachol eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o niferoedd y sylwadau a gafwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data; yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

Ni chaiff ymatebion unigol eu cydnabod oni wneir cais penodol am hynny.

Gofynnir i gyrff cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli yn eu hymateb.

# RHAN 1: RHEOLAETHAU PRESENNOL

Nod Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 (y Ddeddf) yw sicrhau bod gan y Llywodraeth y pwerau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r bygythiad o derfysgaeth yn y DU. Nod Rhan 7 o'r Ddeddf yw gwella mesurau diogelwch ar gyfer sylweddau peryglus a all gael eu targedu neu eu defnyddio gan derfysgwyr. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r heddlu archwilio safleoedd sy'n cadw sylweddau rhestredig a gorchymyn y dylid rhoi mesurau diogelwch addas ar waith.

Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn nodi'r mesurau y dylid eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelwch. Mae'r rhestr o bathogenau a thocsinau peryglus (cyfryngau biolegol) y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt wedi'u cynnwys yn Atodlen 5. O dan y ddeddfwriaeth:

- Mae gan yr heddlu bwerau i fynd i mewn i safleoedd perthnasol er mwyn asesu mesurau diogelwch.
- Gall yr heddlu ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid safleoedd ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch unrhyw sylweddau peryglus a gedwir neu a ddefnyddir ar eu safle, ac am unigolion sy'n gallu cael gafael ar y sylweddau hyn.
- Mae gan yr heddlu bŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddeiliad y safle wneud gwelliannau i'r trefniadau diogelwch sydd ar waith yno.
- Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i'w gwneud yn ofynnol i gael gwared ar unrhyw sylweddau peryglus a gedwir neu a ddefnyddir mewn safle lle nad oes trefniadau diogelwch boddhaol ar waith.
- Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i'w gwneud yn ofynnol i atal unrhyw unigolyn penodol rhag cael mynediad at sylweddau peryglus neu'r safle lle y'u cedwir, lle bo angen gwneud hynny er budd diogelwch cenedlaethol.
- Mae'n drosedd i ddeiliaid safleoedd, heb esgus rhesymol, beidio â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd neu gyfarwyddiadau a gyflwynir gan ran 7 o'r Ddeddf neu o dan y rhan honno.

Mae Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth (CTSAs) yn gweithio mewn heddluoedd ac yn gyfrifol am roi cyngor arbenigol ar fesurau diogelwch amddiffynnol i sefydliadau lleol. Caiff eu gwaith ei gydgysylltu gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol (NaCTSO). Mae CTSAs yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg mewn labordai sy'n dod o dan y Ddeddf ac, fel y nodwyd uchod, mae ganddynt y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wella'r trefniadau diogelwch sydd ar waith.

Mae'r rhestr o bathogenau a thocsinau sy'n dod o dan Atodlen 5 ar hyn o bryd fel a ganlyn:

### FEIRYSAU (SY'N EFFEITHIO AR BOBL)

- Feirws brech y mwncïod
- Feirws Chikungunya
- Feirws Coedwig Kyasanur
- Feirws coriomeningitis lymffosytig
- Feirws Dobrava/Belgrade

- Feirws Ebola
- Feirws enseffalitis a gludir gan drogod (feirws enseffalitis Gwanwyn-Haf Rwsia)
- Feirws enseffalitis ceffylaidd Venezuela
- Feirws enseffalitis ceffylaidd y dwyrain
- Feirws enseffalitis ceffylaidd y Gorllewin
- Feirws enseffalitis Dyffryn Murray
- Feirws enseffalitis Japan
- Feirws enseffalitis St Louis
- Feirws Everglades
- Feirws Getah
- Feirws Guanarito
- Feirws Hantaan
- Feirws Junin
- Feirws Machupo
- Feirws Marburg
- Feirws Mayaro
- Feirws Middleburg
- Feirws Mobala
- Feirws Mucambo
- Feirws Ndumu
- Feirws Nipah
- Feirws polio
- Feirws Powassan
- Feirws Rocio
- Feirws Sabia
- Feirws Sagiyama
- Feirws Sin Nombre
- Feirws twymyn deng
- Feirws twymyn Gorllewin y Nîl
- Feirws twymyn gwaedlifol Congo-crimea
- Feirws twymyn gwaedlifol Omsk
- Feirws twymyn Lassa
- Feirws twymyn y Dyffryn Hollt
- Feirws Variola
- Feirws y breid
- Feirws y dwymyn felen
- Feirysau ffliw (mathau pandemig)
- Herpes simiae (feirws B)
- Y gynddaredd a feirysau Lyssa sy'n gysylltiedig â'r gynddaredd

## FEIRYSAU (SY'N EFFEITHIO AR ANIFEILIAID HEBLAW AM BOBL)

- Feirws brech y defaid
- Feirws brech y geifr
- Feirws clefyd Newcastle
- Feirws clefyd pothellog y moch
- Feirws clefyd y croen talpiog
- Feirws clwy Affricanaidd y moch
- Feirws clwy clasurol y moch
- Feirws clwy'r traed a'r genau
- Feirws Hendra (Morbilifeirws ceffylaidd)
- Feirws Peste des petits ruminants
- Feirws pla'r gwartheg
- Feirws salwch ceffylau Affrica

- Feirws stomatitis pothellog
- Feirws y tafod glas
- Ffliw adar pathogenedd uchel (HPAI) fel y'i diffinnir yn Atodiad I(2) o Gyfarwyddeb Cyngor 2005/94/EC
- Pliwroniwmonia buchol heintus

### RICKETTSIAE

- Coxiella burnetii
- Rickettsia prowazeki
- Rickettsia rickettsii
- Rickettsia typhi (mooseri)

### BACTERIA

- Bacillus anthracis
- Brucella abortus
- Brucella canis
- Brucella melitensis
- Brucella suis
- Burkholderia mallei (Pseudomonas mallei)
- Burkholderia pseudomallei (Pseudomonas pseudomallei)
- Chlamydoffila psittaci
- Clostridiwm botwlinwm
- Clostridiwm perfringens
- Coli Escherichia Enterowaedlifol, seroteip 0157 a mathau sy'n cynhyrchu ferotocsinau
- Francisella tularensis
- Mycobacteriwm twbercwlosis
- Salmonela paratyphi A, B, C
- Salmonela paratyphi sy'n gwrthsefyll sawl cyffur
- Salmonela typhi
- Shigella boydii
- Shigella dysenteriae
- Shigella flexneri
- Vibrio cholerae
- Yersinia pestis

### FFWNG

- Cladoffialoffora bantiana
- Cryptococws neoformans

### TOCSINAU

- Abrin
- Conotocsin
- Enterotocsin clostridiwm perfringens
- Enterotocsinau staffylococws
- Risin
- Sacsitocsin
- Tetrodotocsin
- Tocsin modeccin
- Tocsin volkensin
- Tocsinau botwlinwm
- Tocsinau clostridiwm perfringens epsilon
- Tocsinau shiga ac sy'n debyg i rai shiga
- Viscum Album Lectin 1 (Viscumin)

# RHAN 2: BYGYTHIAD TERFYSGAETH I'R DU

Mae mudiadau terfysgol cyfoes yn ceisio defnyddio arfau cemegol neu fiolegol. Cafwyd nifer o ymosodiadau lle defnyddiwyd pathogenau a thocsinau. Er enghraifft, yn 1984 cafodd bariau salad mewn bwytai yn Oregon, UDA eu halogi â salmonela gan gwlt crefyddol o'r enw Rajneeshees. Cafodd o leiaf 750 o bobl eu taro'n sâl.

Rhwng 1993 a 1995, ceisiodd mudiad cwlt Aum Shinrikyo yn Japan weithgynhyrchu cyfryngau biolegol, gan gynnwys anthracs a thocsin botwlinwm. Rhyddhaodd aelodau Aum Shinrikyo sarin ar y metro yn Tokyo yn 1995 gan ladd 12 o bobl.

Bu farw pump o bobl pan anfonwyd amlenni yn cynnwys powdr anthracs i gyfeiriadau yn yr UD yn 2001. Ar yr un pryd, roedd amheuon ynghylch achosion o halogiad anthracs wedi amharu'n sylweddol ar gymdeithas ac wedi arwain at gostau dadhalogi uchel hefyd.

Ym mis Ionawr 2003 llwyddodd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Diogelwch i atal ymgais gan gell Algeraidd yn Llundain i gynhyrchu'r tocsin risin.

Al Qa'ida yw'r mudiad trawswladol cyntaf i gefnogi'r defnydd o arfau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (CBRN) yn erbyn targedau sifil a cheisio caffael y cyfryw arfau. Sefydlodd y mudiad gyfleusterau ymchwilio i arfau cemegol a biolegol yn Affganistan tra bod y Taliban mewn grym a rhoddodd hyfforddiant ar ddefnyddio gwenwynau cyffwrdd i nifer fawr o aelodau Al Qa'ida.

Mae'r rhyngrwyd yn golygu bod gwybodaeth am dechnoleg dyfeisiau CBRN a'r deunyddiau y gellir eu defnyddio i'w datblygu ar gael yn eang. Gall deunyddiau CBRN gael eu defnyddio at ddibenion dilys, er enghraifft gwyddorau meddygol a biodechnoleg. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r risg y gall cyfryngau biolegol gael eu defnyddio gan fudiadau terfysgol yn sylweddol. Mae'r bygythiad y caiff pathogenau a thocsinau eu defnyddio gan derfysgwyr yn fyw o hyd.

# RHAN 3: YR ADOLYGIAD

Yn 2007 adolygodd y Swyddfa Gartref beth arall oedd angen ei wneud i amddiffyn rhag achosion o derfysgwyr yn defnyddio deunyddiau cemegol, biolegol, radiolegol a ffrwydrol. Canfu'r adolygiad fod gwaith da eisoes yn cael ei wneud ond bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â gwendidau mewn meysydd penodol.

Rhaid i unigolion a busnesau gael rhyddid i gyflawni gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a democrataidd arferol ac, o ganlyniad, bydd rhywfaint o berygl o ymosodiad gan derfysgwyr bob amser. Mae'n rhaid i fesurau diogelwch amddiffynnol gwrthderfysgaeth fod yn **gymesur â'r risg** ac un o brif ddibenion yr adolygiad oedd sicrhau y caiff ymdrechion eu cyfeirio at y meysydd hynny lle y gwelir y buddiannau mwyaf o ran gwrthderfysgaeth. Hynny yw, mae'r Llywodraeth am ei gwneud yn **anos cael gafael** ar y sylweddau sy'n peri'r **risg fwyaf o ran terfysgaeth**.

Fel yr argymhellwyd yn yr adolygiad hwnnw, comisiynodd y Swyddfa Gartref grŵp o arbenigwyr o bob rhan o'r Llywodraeth a'r byd academaidd i adolygu'r rhestr o bathogenau a thocsinau yn Atodlen 5 o'r Ddeddf, yng ngoleuni datblygiadau diweddar ym maes gwyddoniaeth a gofal iechyd. Arweiniwyd y grŵp gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol, yr Adran Iechyd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Sefydliad Cenedlaethol dros Safonau a Rheolaeth Fiolegol, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, Coleg Imperial, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Ganolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref.

Gwnaeth adolygiad Lightfoot nifer o argymhellion (gweler isod). Yn eu plith argymhellwyd y dylid ychwanegu un sylwedd at y rhestr yn Atodlen 5 ac y dylid dileu pedwar sylwedd arall.

*i. Dylai sylweddau a restrir yn Atodlen 5 gael eu gosod mewn un o dri chategori, yn dibynnu ar y safonau diogelwch sy'n briodol i'r sylwedd hwnnw.*

*ii. Dylid adolygu Atodlen 5 bob dwy flynedd.*

*iii. Dylid ychwanegu Coronafeirws SARS at Atodlen 5.*

*iv. Dylid dileu Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens, Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana o Atodlen 5.*

*v. Dylai "mathau o ffliw pandemig" gael eu hailddiffinio ymhob un o'r tri chategori.*

*vi. Dylai pathogenau planhigion gael eu heithrio o Atodlen 5 o hyd.*

Cred y Llywodraeth mai ei phrif gyfrifoldeb yw sicrhau diogelwch cenedlaethol. Ond nid yw am amharu ar yr angen dilys a phwysig i labordai gofal iechyd ac ymchwil ymdrin â phathogenau a thocsinau, ac mae'n awyddus i amddiffyn a chefnogi busnes hefyd. Felly, mae'n bwysig dod o hyd i ateb effeithiol ond cymesur i'r broblem.

# RHAN 4: OPSIYNAU

Section 58 of ATCSA refers to the pathogens and toxins to which requirements under Part 7 Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn cyfeirio at y pathogenau a'r tocsinau y mae gofynion Rhan 7 yn berthnasol iddynt. Mae'n rhoi pŵer drwy orchymyn i'r Ysgrifennydd Gwladol addasu'r rhestr yn Atodlen 5.

Nodwyd dau opsiwn posibl ar gyfer pob un o'r argymhellion yn ymwneud â newid y rhestr o sylweddau yn Atodlen 5: derbyn yr argymhelliad neu ei wrthod.

Argymhelliad 1 - Dylid ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr. Opsiynau: gwneud dim neu ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr.

Mae Coronafeirws SARS yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf. Os na chaiff Coronafeirws SARS ei ychwanegu at y rhestr, gallai gael ei gadw mewn safleoedd anniogel a gallai gael ei ddwyn a'i gamddefnyddio gan derfysgwyr.

Dim ond un labordy sy'n cadw'r sylwedd hwn yn y DU. Mae'r labordy hwn yn cadw sylweddau eraill a restrir yn Atodlen 5 hefyd ac mae'n cydymffurfio â'r mesurau gofynnol. Ni fydd costau ychwanegol i'r labordy. Mae'r labordy hwn hefyd yn rhan o'r gyfundrefn archwilio felly ni fydd costau gorfodi ychwanegol chwaith. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw labordai eraill y bydd angen iddynt gadw'r sylwedd hwn yn y dyfodol agos.

Byddai cynyddu mesurau diogelwch ar gyfer y pathogen hwn yn golygu y byddai'n anos cael gafael arno at ddibenion terfysgol, gan helpu i amddiffyn y cyhoedd.

- A oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr?
- A yw ymgyngoreion yn gallu cadarnhau na fydd ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr yn creu unrhyw faich ychwanegol o ran diogelwch? A yw ymgyngoreion yn rhagweld y bydd angen i unrhyw labordai eraill gadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos?

Argymhelliad 2 – Dylid dileu Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens (pathogen), Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana o'r rhestr. Opsiynau: gwneud dim neu ddileu'r sylweddau o'r rhestr.

Nid ystyrir y gall y sylweddau hyn achosi niwed difrifol os cânt eu defnyddio gan derfysgwr a gellir cael gafael arnynt yn hawdd ym myd natur.

Os caiff sylweddau nad oes fawr ddim risg y gall terfysgwyr eu camddefnyddio eu gadael ar y rhestr, gall hyn danseilio hygrededd y ddeddfwriaeth ac arwain at achosion o dorri'r ddeddfwriaeth. Byddai cynyddu neu gynnal mesurau diogelwch nad ydynt yn gymesur â'r risg a berir gan y sylweddau hynny yn rhoi baich diangen ar fusnesau bach. Byddai dileu sylweddau nad oes fawr ddim risg y gall terfysgwyr eu camddefnyddio o Atodlen 5 yn lleihau beichiau diogelwch diangen ar labordai.

Nid oes unrhyw fudd o gadw sylweddau nad ydynt yn peri risg derfysgol o fewn cwmpas y Ddeddf. Ni fyddai dileu unrhyw rai o'r sylweddau uchod o'r rhestr yn creu costau ychwanegol.

- Mae 200 o labordai clinigol yn cadw Mycobacteriwm twbercwlosis. Bydd y labordai hyn yn cadw sylweddau eraill yn Atodlen 5 o bryd i'w gilydd ac felly byddent yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf o hyd.

- Mae 300 o labordai yn cadw Clostridiwm perfringens (pathogen). Nid oes unrhyw un o'r rhain yn cadw unrhyw sylweddau eraill yn Atodlen 5. Byddai dileu Clostridiwm perfringens o Atodlen 5 yn cael gwared ar rai o'r gofynion diogelwch sy'n gymwys i'r labordai, gan arbed tua £10,000 y flwyddyn i bob labordy.

- Mae 200 o labordai clinigol yn cadw Cryptococws neoformans. Bydd y labordai hyn yn cadw sylweddau eraill yn Atodlen 5 o bryd i'w gilydd ac felly byddent yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf o hyd.

- Mae dau labordy yn cadw Cladoffialoffora bantiana. Nid yw'r labordai hyn yn cadw unrhyw sylweddau eraill yn Atodlen 5. Byddai dileu Cladoffialoffora bantiana o Atodlen 5 yn cael gwared ar ofynion diogelwch amrywiol sy'n gymwys i'r labordai, gan arbed tua £10,000 y flwyddyn i bob labordy.

- Ym marn ymgyngoreion, a oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu dileu o Atodlen 5? A yw labordai yn cytuno â'r arbedion a amcangyfrifir? Os ydynt yn anghytuno, a yw ymgyngoreion yn gallu amcangyfrif yr arbedion blynyddol sy'n debygol pe na bai angen mesurau diogelwch ffisegol na mesurau diogelwch personél?

Argymhelliad 3 - Dylai mathau o ffliw pandemig gael eu hailddiffinio fel y gellir categoreiddio mathau unigol yn ôl eu bygythiad i iechyd pobl. Opsiynau: gwneud dim neu ailgategoreiddio'r gwahanol fathau o ffliw.

Mae'r categorïau o feirysau ffliw yn ystyried bygythiad gwirioneddol pob math unigol i iechyd pobl. Byddai angen gwahanol lefelau o ddiogelwch ffisegol a diogelwch personél yn dibynnu ar y categori. Dim ond tri labordy sy'n cadw mathau o ffliw pandemig ac mae'r rhain eisoes yn dod o dan gwmpas y Ddeddf. Felly ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r labordai eu hunain nac i awdurdodau gorfodi. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw labordai sy'n bwriadu cadw'r sylweddau hyn yn y dyfodol agos.

- A all ymgyngoreion gadarnhau na fydd ailgategoreiddio feirysau ffliw pandemig yn seiliedig ar eu bygythiad yn creu costau ychwanegol i labordai nac i awdurdodau gorfodi?

Yn gyffredinol mae argymhellion Adolygiad Lightfoot yn cadarnhau'r trefniadau presennol ac yn cynnig y dylid dileu sylweddau penodol o Atodlen 5. Felly ystyrir bod y cynigion yn symleiddio trefniadau ac y byddant yn lleihau costau diogelwch cysylltiedig.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Mae diddordeb gennym gael adborth ar bob agwedd ar yr ymgynghoriad hwn. Er mwyn eich helpu i bwyso a mesur yr ymgynghoriad hwn, efallai yr hoffech ystyried nifer o gwestiynau a nodir yn yr adran hon. Mae'r rhain yn berthnasol i'r cyhoeddiad hwn a'r Asesiad o Effaith atodedig. Mae'r Asesiad o Effaith (Atodiad B) yn seiliedig ar ddau opsiwn ar gyfer pob argymhelliad: derbyn yr argymhelliad neu ei wrthod.

- Mae'r Llywodraeth yn nodi bod angen i ymatebion diogelwch amddiffynnol fod yn gymesur â'r risg. A fydd y diwygiadau a ddisgrifir yn y ddogfen yn arwain at gamau cymesur ar lawr gwlad?

- A oes opsiynau eraill i'w hystyried?

- A all ymgyngoreion rannu costau amcangyfrifedig mesurau diogelwch amddiffynnol gwrthderfysgaeth i labordai, pan fydd mesurau o'r fath wedi'u cyflwyno?
- Yn ogystal â'r costau a'r buddiannau a nodir yn y dogfennau, a yw ymgyngoreion yn gallu nodi costau neu fuddiannau eraill yn sgîl gweithredu'r argymhellion hyn? Os felly, nodwch beth ydynt.

### CWESTIYNAU'R ASESIAD O EFFAITH

- A oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr?
- A yw ymgyngoreion yn gallu cadarnhau na fydd ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr yn creu unrhyw faich ychwanegol o ran diogelwch? A yw ymgyngoreion yn rhagweld y bydd angen i unrhyw labordai eraill gadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos?
- Ym marn ymgyngoreion, a oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu dileu o Atodlen 5? A yw labordai yn cytuno â'r arbedion a amcangyfrifir? Os ydynt yn anghytuno, a yw ymgyngoreion yn gallu amcangyfrif yr arbedion blynyddol sy'n debygol pe na bai angen mesurau diogelwch ffisegol na mesurau diogelwch personél?
- A all ymgyngoreion gadarnhau na fydd ailgategoreiddio feirysau ffliw pandemig yn seiliedig ar eu bygythiad yn creu costau ychwanegol i labordai nac i awdurdodau gorfodi?
- Yn eich barn chi, a oes unrhyw gymunedau neu grwpiau (er enghraifft, hil, anabledd, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol, oedran) y bydd y mesurau yn cael effaith fwy arnynt, o'u cymharu â'r cyhoedd yn gyffredinol? Os felly, nodwch pa gymunedau neu grwpiau a disgrifiwch y mesurau penodol a'r effeithiau cysylltiedig.

# ATODIAD A - Y SAITH MAEN PRAWF YMGYNGHORI

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn dilyn Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori, a nodir y meini prawf ar ei gyfer isod:

### 1 - PRYD Y DYLID YMGYNGHORI

Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo modd dylanwadu ar ganlyniad polisi.

### 2 - HYD YMARFERION YMGYNGHORI

Fel arfer, dylai ymgyngoriadau bara 12 wythnos o leiaf gan ystyried amserlenni hwy lle bo hynny'n ymarferol ac yn gwneud synnwyr.

### 3 - EGLURDER O RAN CWMPAS AC EFFAITH

Dylai dogfennau'r ymgynghoriad nodi'n glir y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, faint o ddylanwad y gellid ei gael a chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

### 4 - HYGYRCHEDD YMARFERION YMGYNGHORI

Dylai'r ymarferion ymgynghori gael eu cynllunio mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddynt eu cyrraedd, a dylent gael eu targedu atynt.

### 5 - Y BAICH YMGYNGHORI

Mae'n hanfodol sicrhau bod ymgyngoriadau mor ddidrafferth â phosibl er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac er mwyn i'r ymgyngoreion gyfrannu.

### 6 - YMATEBOLRWYDD YMARFERION YMGYNGHORI

Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi'n ofalus a dylid rhoi adborth clir i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn dilyn yr ymgynghoriad.

### 7 - GALLU I YMGYNGHORI

Dylai'r swyddogion sy'n cynnal ymgyngoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r profiad.

Mae'r Cod Ymarfer llawn ar Ymgynghori ar gael yn: http://www.berr.gov.uk/whatwedo/consumers/buying-selling/cprs/page44420.html

### CYDGYSYLLTYDD YMGYNGORIADAU

Os bydd gennych gŵyn neu sylw ynghylch dull y Swyddfa Gartref o gynnal yr ymgynghoriad, dylech gysylltu â Chydgysylltydd Ymgyngoriadau'r Swyddfa Gartref, Nigel Lawrence. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Nigel Lawrence. Rôl y Cydgysylltydd yw hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan God Ymarfer y Llywodraeth, cynghori timau polisi ar sut i gynnal ymgyngoriadau ac ymchwilio i gwynion yn erbyn y Swyddfa Gartref. Ni fydd yn prosesu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y Cydgysylltydd yn:
Nigel.Lawrence@homeoffice.gsi.gov.uk neu
fel arall gallwch ysgrifennu ato yn:

Nigel Lawrence, Consultation Coordinator
Home Office
Performance and Delivery Unit
Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

## ATODIAD B - ASESIAD O EFFAITH

| | |
|---|---|
| **Teitl:** **Diwygiadau i Atodlen 5 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001** | Asesiad o Effaith (IA) |
| | **Rhif IA:** |
| | **Dyddiad:** 23/09/2010 |
| **Prif adran neu asiantaeth:** Y Swyddfa Gartref/Y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth | **Cam:** Ymgynghori |
| | **Ffynhonnell yr ymyriad:** Domestig |
| | **Math o fesur:** Is-ddeddfwriaeth |
| **Adrannau neu asiantaethau eraill:** | **Cyswllt ar gyfer ymholiadau:** J. Fanshaw 020 7035 0896 |

**Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau**

**Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried? Pam bod angen i'r llywodraeth ymyrryd?**

Mae Atodlen 5 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 (y Ddeddf) yn rhestru'r pathogenau a'r tocsinau a reolir o dan Ran 7 o'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r heddlu archwilio safleoedd sy'n cadw sylweddau rhestredig a gorchymyn y dylid rhoi mesurau diogelwch addas ar waith. Adolygwyd y rhestr gan grŵp trawslywodraethol ac academaidd ac argymhellwyd nifer o ddiwygiadau i'r sylweddau rhestredig a'r categorïau. Mae'r Llywodraeth yn rheoleiddio'r sylweddau risg uchel hyn am nad oes unrhyw gymhelliant masnachol i'r sector preifat wneud hynny. Mae'r Llywodraeth hefyd yn sylweddoli bod angen diogelu gwaith ymchwil dilys a pheidio ag atal cynnydd pwysig ym maes gwyddorau biolegol.

**Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau a fwriedir?**

Rhaid i bolisi'r Llywodraeth ystyried anghenion o ran iechyd y cyhoedd a'r risg i'r cyhoedd os caiff pathogenau a thocsinau eu camddefnyddio gan droseddwyr ond rhaid iddo hefyd sicrhau bod modd gwneud cynnydd gwyddonol yn y maes o hyd. Felly amcanion y polisi yw a) sicrhau ei bod yn anos i derfysgwyr gael gafael ar bathogenau, a b) lleihau'r beichiau diangen o ran diogelwch ffisegol a diogelwch personél ar labordai sydd ond yn cadw sylweddau risg isel.

**Pa opsiynau polisi a ystyriwyd? Rhowch gyfiawnhad dros eich dewis opsiwn (ceir rhagor o fanylion yn y Sail Dystiolaeth)**


Argymhelliad 1 – Dylid ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr. Opsiynau: gwneud dim neu ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr. Mae Coronafeirws SARS yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf.

Argymhelliad 2 – Dylid dileu Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens

| | |
|---|---|
| (pathogen), Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana o'r rhestr. Opsiynau: gwneud dim neu ddileu'r sylweddau i gyd o'r rhestr. Nid ystyrir bod y sylweddau hyn yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf mwyach.<br><br>Argymhelliad 3 – Dylid ailddiffinio mathau o ffliw pandemig. Opsiynau: gwneud dim neu eu rhannu'n dri chategori yn dibynnu ar y bygythiad a berir. Drwy gategoreiddio'r sylweddau hyn yn unol â'r bygythiad a berir ganddynt, gellir targedu mesurau diogelwch mewn ffordd sy'n gymesur â'r bygythiad. | |
| **Pryd y caiff y polisi ei adolygu er mwyn cadarnhau ei effaith ac i ba raddau y mae amcanion y polisi wedi'u cyflawni?** | Caiff ei adolygu 04/2013 |
| **A oes trefniadau ar waith i sicrhau y gellir casglu gwybodaeth fonitro mewn ffordd systematig er mwyn adolygu'r polisi yn y dyfodol?** | Na |

**Cymeradwyaeth Weinidogol** Ar gyfer Asesiadau o Effaith yn ystod y cam ymgynghori:

***Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith ac rwy'n fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cyflwyno barn resymol ar gostau, buddiannau ac effaith debygol y prif opsiynau.***

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol: ....  .......................................

Dyddiad: 2 Mawrth 2011

**Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth** Opsiwn Polisi 1

**Disgrifiad:**
Argymhelliad 1: Dylid ychwanegu Coronafeirws SARS at Atodlen 5.

| **Sail Brisiau Blwyddyn** | **Sail PV Blwyddyn** | **Cyfnod Amser Blynyddoedd** | **Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Isel:** Dewisol | **Uchel:** Dewisol | **Amcangyfrif Gorau:** anhysbys |

| **COSTAU (£m)** | **Cyfanswm Costau Pontio** | | **Cost Flynyddol Gyfartalog** | **Cyfanswm y Gost** |
|---|---|---|---|---|
| | (Pris Blynyddoedd Cyson) | | (ac eithrio Costau Pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | 0 | | 0 | 0 |

**Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Mae'r unig labordy sy'n dal Coronafeirws SARS hefyd yn dal sylweddau eraill yn Atodlen 5 ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf, felly ni fydd costau ychwanegol i'r labordy na heddluoedd os caiff y diwygiad hwn ei wneud gan nad yw'r gost yn cynyddu os caiff mwy o sylweddau eu hychwanegu.

**Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Anhysbys

| **BUDDIANNAU (£m)** | **Cyfanswm Costau Pontio** | | **Cost Flynyddol Gyfartalog** | **Cyfanswm y Gost** |
|---|---|---|---|---|
| | (Pris Blynyddoedd Cyson) | | (ac eithrio Costau Pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | Anhysbys | | Anhysbys | Anhysbys |

**Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Anhysbys

**Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Bydd hi'n anos cael gafael ar y sylwedd at ddibenion terfysgol, gan arwain at lefel uwch o ddiogelwch i'r cyhoedd a llai o risg y caiff ei ddefnyddio ar gyfer terfysgaeth.

**Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol** **Cyfradd ddisgownt (%)**
Rhagdybiaeth nad oes unrhyw labordai eraill yn bwriadu defnyddio/cadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos.

| **Effaith ar y beichiau gweinyddol (AB) (£m):** | | | **Effaith ar arbedion costau polisi (£m):** | **O fewn cwmpas** |
|---|---|---|---|---|
| **AB newydd:** | **Arbedion AB:** | **Net:** | **Arbedion costau polisi:** | Na |

**Gorfodi, Gweithredu ac Effeithiau Ehangach**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa ardaloedd daearyddol y mae'r polisi/opsiwn yn eu cwmpasu? | | | Y Deyrnas Unedig | | |
| Ar ba ddyddiad y daw’r polisi’n weithredol? | | | 06/10/2011 | | |
| Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi? | | | CTSAs/NaCTSO | | |
| Beth yw cyfanswm y gost flynyddol (£m) o ran gorfodi i'r rhain? | | | dim costau ychwanegol | | |
| A yw'r camau gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton? | | | Ydyn | | |
| A fydd y broses weithredu yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE? | | | Na | | |
| Beth yw'r newid cyfwerth â $CO_2$ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (cyfwerth â miliwn o dunelli o $CO_2$) | | | **Masnachwyd:** dibwys | | **Heb eu masnachu:** dibwys |
| A yw'r cynnig yn cael effaith ar gystadleuaeth? | | | Na | | |
| Pa gyfran (%) o Gyfanswm y costau/buddiannau PV y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeddfwriaeth sylfaenol, os yw'n berthnasol? | | | **Costau:** Dd/G | **Buddiannau:** Dd/G | |
| Cost flynyddol (£m) fesul sefydliad (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | **Micro** | **< 20** | **Bach** | **Canolig** | **Mawr** |
| A oes unrhyw rai o'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio? | Na | Na | Na | Na | Na |

**Profion Effaith Penodol: Rhestr wirio**

Defnyddiwch y tabl isod i nodi ble yn y sail dystiolaeth y ceir gwybodaeth am unrhyw Brofion Effaith Penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r opsiynau polisi. Am ganllawiau ar sut i gwblhau pob prawf, cliciwch ddwywaith ar y ddolen i'r canllawiau a ddarparwyd gan yr adran berthnasol.

Noder ni fwriedir i'r rhestr wirio hon nodi'r holl ystyriaethau statudol y dylai adrannau eu hystyried wrth benderfynu pa opsiwn polisi i'w ddilyn. Cyfrifoldeb yr adrannau yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

| A yw eich opsiwn/cynnig polisi yn cael effaith ar… | **Effaith** | **Cyfeirnod tudalen yn yr IA** |
|---|---|---|
| **Dyletswyddau cydraddoldeb statudol[2]?**<br>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Canllawiau cyffredinol | Na | 35 |
| **Effeithiau Economaidd** | | |
| Cystadleuaeth? Asesiad o'r Effaith ar Gystadleuaeth | Na | 35 |
| Cwmnïau bach? Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach | Na | 35 |
| **Effeithiau amgylcheddol** | | |
| Asesiad nwyon tŷ gwydr?<br>http://www.defra.gov.uk/environment/index.htm | Na | |
| Materion amgylcheddol ehangach? Mae canllawiau wedi'u llunio ar wefan Defra | Na | |
| **Effeithiau cymdeithasol** | | |
| Iechyd a lles? Iechyd: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Na | |
| Hawliau dynol? Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Hawliau Dynol | Na | |
| Cyfiawnder? | Na | |
| Prawfesur polisïau gwledig? Y Comisiwn Cymunedau Gwledig | Na | |
| **Cynaliadwyedd?**<br>Defra: Think sustainable | Na | |

[2] Mae asesiadau o Effaith mewn perthynas â hil, anabledd a rhywedd yn ofynion statudol ar gyfer polisïau perthnasol. Caiff gofynion cydraddoldeb statudol eu hymestyn yn 2011, ar ôl i'r Mesur Cydraddoldeb ddod i rym. Mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol y Mesur Cydraddoldeb yn gymwys Brydain Fawr yn unig. Mae'r Pecyn Cymorth yn rhoi cyngor ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol yr awdurdodau cyhoeddus â chylch gwaith yng Ngogledd Iwerddon.

**Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth** Opsiwn Polisi 2

**Disgrifiad:**
Argymhelliad 2: Dylid dileu Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens (pathogen), Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana o Atodlen 5

| Sail Brisiau Blwyddyn | Sail PV Blwyddyn | Cyfnod Amser mewn Blynyddoedd 10 | Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Isel:** Dewisol | **Uchel:** Dewisol | **Amcangyfrif Gorau: 25.1M** |

| COSTAU (£m) | Cyfanswm Costau Pontio | | Cost Flynyddol Gyfartalog | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|---|---|
| | (Pris Blynyddoedd Cyson) | | (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | 0 | | 0 | 0 |

**Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Mae'n cael gwared ar yr angen am fesurau diogelwch ffisegol mewn tua 302 o labordai ledled y DU sydd ond yn dal un o'r sylweddau yn Atodlen 5.

**Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Drwy ddileu'r beichiau o ran diogelwch ffisegol a diogelwch personél sydd ynghlwm wrth sylweddau nad ystyrir bod fawr ddim risg y cânt eu defnyddio gan derfysgwyr, bydd gan y ddeddfwriaeth fwy o hygrededd yn y gymuned ac, felly, mae'n fwy tebygol y caiff ei dilyn.

| BUDDIANNAU (£m) | Cyfanswm Costau Pontio | | Cost Flynyddol Gyfartalog | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|---|---|
| | (Pris Blynyddoedd Cyson) | | (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | | | £3020000 | £25.1M |

**Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Mae'n cael gwared ar yr angen am fesurau diogelwch ffisegol mewn tua 302 o labordai ledled y DU sydd ond yn dal un o'r sylweddau yn Atodlen 5.

**Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
Drwy ddileu'r beichiau o ran diogelwch ffisegol a diogelwch personél sydd ynghlwm wrth sylweddau nad ystyrir bod fawr ddim risg y cânt eu defnyddio gan derfysgwyr, bydd gan y ddeddfwriaeth fwy o hygrededd yn y gymuned ac, felly, mae'n fwy tebygol y caiff ei dilyn.

| **Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol** | **Cyfradd ddisgownt (%)** 3.5% |
|---|---|
| Mae costau blynyddol yn cynnwys mesurau diogelwch fel systemau teledu cylch cyfyng, rheoli mynediad, fetio personél. | |

| **Effaith ar y beichiau gweinyddol (AB) (£m):** | | | **Effaith ar arbedion costau polisi (£m):** | **O fewn cwmpas** |
|---|---|---|---|---|
| **AB newydd:** | **Arbedion AB:** | **Net:** | **Arbedion costau polisi:** | Ie/Na |

**Gorfodi, Gweithredu ac Effeithiau Ehangach**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa ardaloedd daearyddol y mae'r polisi/opsiwn yn eu cwmpasu? | | | Y Deyrnas Unedig | | |
| Ar ba ddyddiad y daw'r polisi'n weithredol? | | | 06/10/2011 | | |
| Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi? | | | CTSAs/NaCTSO | | |
| Beth yw cyfanswm y gost flynyddol (£m) o ran gorfodi i'r rhain? | | | dim costau ychwanegol | | |
| A yw'r camau gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton? | | | Ydyn | | |
| A fydd y broses weithredu yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE? | | | Na | | |
| Beth yw'r newid cyfwerth â $CO_2$ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (cyfwerth â miliwn o dunelli o $CO_2$) | | | **Masnachwyd:** dibwys | **Heb eu masnachu:** dibwys | |
| A yw'r cynnig yn cael effaith ar gystadleuaeth? | | | Na | | |
| Pa gyfran (%) o Gyfanswm y costau/buddiannau PV y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeddfwriaeth sylfaenol, os yw'n berthnasol? | | | **Costau:** Dd/G | **Buddiannau:** Dd/G | |
| Cost flynyddol (£m) fesul sefydliad (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | **Micro** | **< 20** | **Bach** | **Canolig** | **Mawr** |
| A oes unrhyw rai o'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio? | Na | Na | Na | Na | Na |

**Profion Effaith Penodol: Rhestr wirio**

Defnyddiwch y tabl isod i nodi ble yn y sail dystiolaeth y ceir gwybodaeth am unrhyw Brofion Effaith Penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r opsiynau polisi. Am ganllawiau ar sut i gwblhau pob prawf, cliciwch ddwywaith ar y ddolen i'r canllawiau a ddarparwyd gan yr adran berthnasol.

Noder ni fwriedir i'r rhestr wirio hon nodi'r holl ystyriaethau statudol y dylai adrannau eu hystyried wrth benderfynu pa opsiwn polisi i'w ddilyn. Cyfrifoldeb yr adrannau yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

| A yw eich opsiwn/cynnig polisi yn cael effaith ar… | **Effaith** | **Cyfeirnod tudalen yn yr IA** |
|---|---|---|
| **Dyletswyddau cydraddoldeb statudol[2]?**<br>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Canllawiau cyffredinol | Na | 35 |
| **Effeithiau economaidd** | | |
| Cystadleuaeth? Asesiad o'r Effaith ar Gystadleuaeth | Na | 35 |
| Cwmnïau bach? Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach | Na | 35 |
| **Effeithiau amgylcheddol** | | |
| Asesiad nwyon tŷ gwydr? http://www.defra.gov.uk/environment/index.htm | Na | |
| Materion amgylcheddol ehangach? Mae canllawiau wedi'u llunio ar wefan Defra | Na | |
| **Effeithiau cymdeithasol** | | |
| Iechyd a lles? Iechyd: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Na | |
| Hawliau dynol? Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Hawliau Dynol | Na | |
| Cyfiawnder? | Na | |
| Prawfesur polisïau gwledig? Y Comisiwn Cymunedau Gwledig | Na | |
| **Cynaliadwyedd?**<br>Defra: Think sustainable | Na | |

[2] Mae asesiadau o Effaith mewn perthynas â hil, anabledd a rhywedd yn ofynion statudol ar gyfer polisïau perthnasol. Caiff gofynion cydraddoldeb statudol eu hymestyn yn 2011, ar ôl i'r Mesur Cydraddoldeb ddod i rym. Mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol y Mesur Cydraddoldeb yn gymwys i Brydain Fawr yn unig. Mae'r Pecyn Cymorth yn rhoi cyngor ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol yr awdurdodau cyhoeddus â chylch gwaith yng Ngogledd Iwerddon.

**Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth** Opsiwn Polisi 3

**Disgrifiad:**
Argymhelliad 3: Ailddiffinio mathau o ffliw pandemig

| **Sail Brisiau Blwyddyn** | **Sail PV Blwyddyn** | **Cyfnod Amser Blynyddoedd** | **Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Isel:** Dewisol | **Uchel:** Dewisol | **Amcangyfrif Gorau:** Anhysbys |

| **COSTAU (£m)** | **Cyfanswm Costau Pontio** | | **Cost Flynyddol Gyfartalog** | **Cyfanswm y Gost** |
|---|---|---|---|---|
| | (Pris Cyson) | Blynyddoedd | (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | 0 | | 0 | 0 |
| **Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**<br>Dim ond tri labordy yn y DU sy'n cadw'r sylweddau hyn ac maent eisoes yn cydymffurfio â'r mesurau o dan y Ddeddf. Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol. | | | | |
| **Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**<br>Anhysbys | | | | |
| **BUDDIANNAU (£m)** | **Cyfanswm Costau Pontio** | | **Cost Flynyddol Gyfartalog** | **Cyfanswm y Gost** |
| | (Pris Cyson) | Blynyddoedd | (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | (Gwerth Presennol) |
| **Isel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Uchel** | Dewisol | | Dewisol | Dewisol |
| **Amcangyfrif Gorau** | 0 | | 0 | 0 |
| **Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**<br>Anhysbys | | | | |
| **Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**<br>Mae mesurau yn gymesur â'r risg a berir gan bob math o ffliw sy'n golygu bod gan y ddeddfwriaeth fwy o hygrededd ac, felly, ei bod yn fwy tebygol o gael ei dilyn. | | | | |
| **Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol** **Cyfradd ddisgownt (%)**<br>Rhagdybiaeth nad oes unrhyw labordai eraill yn debygol o ddefnyddio/cadw'r sylweddau hyn yn y dyfodol agos ac na fydd y newidiadau o ran categorïau yn ychwanegu safonau diogelwch mwy beichus na'r rhai sydd ar waith eisoes. | | | | |

| **Effaith ar y beichiau gweinyddol (AB) (£m):** | | | **Effaith ar arbedion costau polisi (£m):** | **O fewn cwmpas** |
|---|---|---|---|---|
| **AB newydd:** | **Arbedion AB:** | **Net:** | **Arbedion costau polisi:** | Ie/Na |

**Gorfodi, Gweithredu ac Effeithiau Ehangach**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa ardaloedd daearyddol y mae'r polisi/opsiwn yn eu cwmpasu? | | | Y Deyrnas Unedig | | |
| Ar ba ddyddiad y daw'r polisi'n weithredol? | | | 06/10/2011 | | |
| Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi? | | | CTSAs/NaCTSO | | |
| Beth yw cyfanswm y gost flynyddol (£m) o ran gorfodi i'r rhain? | | | dim costau ychwanegol | | |
| A yw'r camau gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton? | | | Ydy | | |
| A fydd y broses weithredu yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE? | | | Na | | |
| Beth yw'r newid cyfwerth â $CO_2$ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (cyfwerth â miliwn o dunelli o $CO_2$) | | | **Masnachwyd:** Dd/G | | **Heb eu masnachu:** Dd/G |
| A yw'r cynnig yn cael effaith ar gystadleuaeth? | | | Na | | |
| Pa gyfran (%) o Gyfanswm y costau/buddiannau PV y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeddfwriaeth sylfaenol, os yw'n berthnasol? | | | **Costau:** Dd/G | **Buddiannau:** Dd/G | |
| Cost flynyddol (£m) fesul sefydliad (ac eithrio costau pontio) (Pris Cyson) | **Micro** | **< 20** | **Bach** | **Canolig** | **Mawr** |
| A oes unrhyw rai o'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio? | Na | Na | Na | Na | Na |

**Profion Effaith Penodol: Rhestr wirio**

Defnyddiwch y tabl isod i nodi ble yn y sail dystiolaeth y ceir gwybodaeth am unrhyw Brofion Effaith Penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r opsiynau polisi. Am ganllawiau ar sut i gwblhau pob prawf, cliciwch ddwywaith ar y ddolen i'r canllawiau a ddarparwyd gan yr adran berthnasol.

Noder ni fwriedir i'r rhestr wirio hon nodi'r holl ystyriaethau statudol y dylai adrannau eu hystyried wrth benderfynu pa opsiwn polisi i'w ddilyn. Cyfrifoldeb yr adrannau yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

| A yw eich opsiwn/cynnig polisi yn cael effaith ar… | **Effaith** | **Cyfeirnod tudalen yn yr IA** |
|---|---|---|
| **Dyletswyddau cydraddoldeb statudol[3]?**<br>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Canllawiau cyffredinol | Na | 35 |
| **Effeithiau Economaidd** | | |
| Cystadleuaeth? Asesiad o'r Effaith ar Gystadleuaeth | Na | 35 |
| Cwmnïau bach? Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach | Na | 35 |
| **Effeithiau Amgylcheddol** | | |
| Asesiad nwyon tŷ gwydr? http://www.defra.gov.uk/environment/index.htm | Na | |
| Materion amgylcheddol ehangach? Mae canllawiau wedi'u llunio ar wefan Defra | Na | |
| **Effeithiau cymdeithasol** | | |
| Iechyd a lles? Iechyd: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Na | |
| Hawliau dynol? Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Hawliau Dynol | Na | |
| Cyfiawnder? | Na | |
| Prawfesur polisïau gwledig? Y Comisiwn Cymunedau Gwledig | Na | |
| **Cynaliadwyedd?**<br>Defra: Think sustainable | Na | |

[3] Mae asesiadau o Effaith mewn perthynas â hil, anabledd a rhywedd yn ofynion statudol ar gyfer polisïau perthnasol. Caiff gofynion cydraddoldeb statudol eu hymestyn yn 2011, ar ôl i'r Mesur Cydraddoldeb ddod i rym. Mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol y Mesur Cydraddoldeb yn gymwys i Brydain Fawr yn unig. Mae'r Pecyn Cymorth yn rhoi cyngor ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol yr awdurdodau cyhoeddus â chylch gwaith yng Ngogledd Iwerddon.

**Sail Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb) - Nodiadau**

Defnyddiwch y gofod hwn i nodi'r cyfeiriadau, y dystiolaeth, y gwaith dadansoddi a'r naratif manwl perthnasol a ddefnyddiwyd gennych i lunio eich opsiynau polisi neu gynnig. Cwblhewch yr adran **Cyfeiriadau**.

**Cyfeiriadau**

Nodwch ddolenni i ddeddfwriaeth a chyhoeddiadau perthnasol, megis asesiad o effaith camau cynharach ar y cyhoedd (e.e. Ymgynghori, Terfynol, Gweithredu).

| Rhif | Deddfwriaeth neu gyhoeddiad |
|---|---|
| 1 | http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2001/ukpga_20010024_en_1 |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |

**+** Ychwanegu rhes arall

**Sail Dystiolaeth**

Sicrhewch fod y wybodaeth yn yr adran hon yn rhoi tystiolaeth glir o'r wybodaeth a roddwyd ar dudalennau crynodeb y ffurflen hon (argymhellir dim mwy na 30 o dudalennau). Cwblhewch y **Proffil blynyddol o gostau a buddiannau ariannol** (pontio a chylchol) isod ar gyfer cyfnod oes y polisi (defnyddiwch y daenlen atodedig os yw'r cyfnod yn hirach na 10 mlynedd).

Mae'r daenlen hefyd yn cynnwys tabl newidiadau allyriadau y bydd angen i chi ei gwblhau os yw eich mesur yn cael effaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Proffil blynyddol o gostau a buddiannau ariannol* - (£m) prisiau cyson**

| | B0 | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | B7 | B8 | B9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau pontio** | | | | | | | | | | |
| **Cost gylchol flynyddol** | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm costau blynyddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Buddiannau pontio** | | | | | | | | | | |
| **Buddiannau cylchol blynyddol** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm buddiannau blynyddol** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |

* Gweler y tudalennau crynodeb a phrif adran y sail dystiolaeth ar gyfer buddiannau anariannol

Microsoft Office
Taflen waith Excel

# SAIL DYSTIOLAETH (AR GYFER TAFLENNI CRYNODEB)

## A. TROSOLWG STRATEGOL

### A.1 CEFNDIR

Nod Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 (y Ddeddf) yw sicrhau bod gan y Llywodraeth y pwerau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r bygythiad o derfysgaeth yn y DU. Nod Rhan 7 o'r Ddeddf yw gwella mesurau diogelwch ar gyfer sylweddau peryglus a all gael eu targedu neu eu defnyddio gan derfysgwyr. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Heddlu archwilio safleoedd sy'n cadw sylweddau rhestredig a gorchymyn y dylid rhoi mesurau diogelwch addas ar waith.

Mae mudiadau terfysgol cyfoes yn ceisio defnyddio arfau cemegol neu fiolegol. Cafwyd nifer o ymosodiadau lle defnyddiwyd pathogenau a thocsinau. Yn 1984 cafodd bariau salad mewn bwytai yn Oregon, UDA eu halogi â salmonela gan gwlt crefyddol o'r enw Rajneeshees. Cafodd o leiaf 750 o bobl eu taro'n sâl. Rhwng 1993 a 1995, ceisiodd mudiad cwlt Aum Shinrikyo yn Japan weithgynhyrchu cyfryngau biolegol, gan gynnwys anthracs a thocsin botwlinwm. Rhyddhaodd aelodau Aum sarin ar y metro yn Tokyo yn 1995 gan ladd 12 o bobl. Bu farw pump o bobl pan anfonwyd amlenni yn cynnwys powdr anthracs i gyfeiriadau yn yr UD yn 2001. Ar yr un pryd, roedd amheuon ynghylch achosion o halogiad anthracs wedi amharu'n sylweddol ar gymdeithas ac wedi arwain at gostau dadhalogi uchel hefyd. Ym mis Ionawr 2003 llwyddodd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Diogelwch i atal ymgais gan gell Algeraidd yn Llundain i gynhyrchu'r tocsin risin.

Al Qa'ida yw'r mudiad trawswladol cyntaf i gefnogi'r defnydd o arfau CBRN yn erbyn targedau sifil a cheisio caffael y cyfryw arfau. Yn ystod cyfnod y Taliban mewn grym, sefydlodd y mudiad gyfleusterau ymchwilio i arfau cemegol a biolegol a rhoddodd hyfforddiant ar ddefnyddio gwenwynau cyffwrdd i nifer fawr o aelodau Al Qa'ida.

Mae'r rhyngrwyd yn golygu bod gwybodaeth am dechnoleg dyfeisiau CBRN a'r deunyddiau y gellir eu defnyddio i'w datblygu ar gael yn eang. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r risg y gall cyfryngau biolegol gael eu defnyddio gan fudiadau terfysgol yn sylweddol. Mae'r bygythiad y caiff pathogenau a thocsinau eu defnyddio gan derfysgwyr yn fyw o hyd. Fodd bynnag, defnyddir deunyddiau CBRN at ddibenion dilys hefyd, ac maent yn cyfrannu at ddatblygiadau ym maes y gwyddorau meddygol a biodechnoleg.

### A.2 GRWPIAU YR EFFEITHIR ARNYNT

Labordai gwyddorau biolegol a chyrff gorfodi'r gyfraith yw'r rhai y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt.

## B. RHESYMEG

Yn 2007 adolygodd y Llywodraeth y ffordd orau o gryfhau diogelwch er mwyn amddiffyn rhag achosion lle caiff sylweddau peryglus eu defnyddio at ddibenion terfysgol. Cyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad hwn yn y Senedd ar 22 Gorffennaf 2008.

Nododd yr adolygiad feysydd lle gellid gwneud mwy o welliannau ond cydnabu fod yn rhaid i ni sicrhau bod mesurau diogelwch amddiffynnol yn gymesur â'r risg. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylid ystyried a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r rhestr o bathogenau a oedd yn rhan o'r Ddeddf ar y pryd.

Comisiynwyd yr Athro Nigel Lightfoot o'r Asiantaeth Diogelu Iechyd gan y Swyddfa Gartref i

arwain adolygiad o'r pathogenau a'r tocsinau a restrir o dan Atodlen 5 o'r Ddeddf. Cynhaliwyd yr adolygiad gan grŵp o gynrychiolwyr trawslywodraethol ac academaidd.

Er mwyn nodi pa bathogenau oedd â risg uchel, ystyriwyd nifer o nodweddion:

- Argaeledd
- Hwylustod i'w cynhyrchu/amlder
- Hwylustod i'w gwasgaru
- Faint sydd ei angen i gael effaith fawr
- Am ba hyd y maent yn aros yn yr amgylchedd
- Rhagdueddiad y boblogaeth
- Argaeledd triniaethau
- Yr amser sydd ei angen i gael effaith

Argymhellodd yr adolygiad hwn nifer o ddiwygiadau i'r rhestr o sylweddau sy'n dod o dan y rheoliadau. Caiff costau a buddiannau pob argymhelliad a fyddai'n arwain at newid y ddeddfwriaeth eu hystyried ar wahân isod. I grynhoi, nod yr argymhellion yw ceisio sicrhau bod y Ddeddf yn parhau i gadw cydbwysedd priodol rhwng cynnal safonau bioddiogelwch ac osgoi gosod beichiau afresymol o ran diogelwch ffisegol a diogelwch personél ar y rhai sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil dilys. Mae Cynghorydd Diogelwch Gwrthderfysgaeth (CTSA) lleol o'r Heddlu yn ymweld â labordai sy'n cadw a'r rhai sydd am gadw sylwedd rhestredig ac y mae ganddynt reswm dilys dros wneud hynny. Bydd y CTSA yn asesu'r mesurau diogelwch sydd ar waith a gall orchymyn i'r labordy wneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion, ac yn eu plith argymhellwyd y dylid ychwanegu un sylwedd at y rhestr yn Atodlen 5 ac y dylid dileu pedwar sylwedd arall, fel a ganlyn:

*i. Dylai sylweddau a restrir yn Atodlen 5 gael eu gosod mewn un o dri chategori, yn dibynnu ar y safonau diogelwch sy'n briodol i'r sylwedd hwnnw. Bydd y system gategoreiddio hon yn galluogi CTSAs i roi cyngor mwy penodol, ond ni fydd angen gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth.*

*ii. Dylid adolygu Atodlen 5 bob dwy flynedd. Mae gwyddoniaeth fodern yn gallu symud yn gyflym a bydd angen ystyried clefydau newydd a rhai sy'n datblygu.*

*iii. Dylid ychwanegu Coronafeirws SARS at Atodlen 5. Mae'r adolygiad o'r farn bod Coronafeirws SARS yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf.*

*iv. Dylid dileu pathogenau penodol (Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens, Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana) o Atodlen 5. Nid ystyrir bod yr organebau hyn yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf.*

*v. Dylai "mathau o ffliw pandemig" gael eu hailddiffinio ymhob un o'r tri chategori. Drwy gategoreiddio feirysau ffliw fel yr argymhellir, gellir ystyried y bygythiad gwirioneddol a berir gan bob math o ffliw a chymhwyso mesurau diogelwch sy'n gymesur â'r risg.*

*vi. Dylai pathogenau planhigion gael eu heithrio o Atodlen 5 o hyd. Caiff pathogenau planhigion eu rheoli'n gaeth eisoes gan ddeddfwriaeth iechyd planhigion.*

## C. AMCANION

Amcanion y diwygiadau i'r Ddeddf yw:

- Sicrhau ei bod yn anos i derfysgwyr gael gafael ar bathogenau;
- Lleihau beichiau diogelwch diangen ar y labordai hynny sydd ond yn cadw sylweddau risg isel.
- Er mwyn cyflawni hyn rydym yn bwriadu:
- Sicrhau y defnyddir dull cymesur o weithredu fel nad yw sylweddau risg isel yn creu costau diangen;
- Ystyried argymhellion yr adolygiad o'r Ddeddf a arweiniwyd gan yr Athro Lightfoot;
- Adolygu canllawiau ar gyfer labordai a CTSAs ynghylch dilyn y mesurau a gaiff eu cynnwys yn y Ddeddf.

## CH. OPSIYNAU AC ARFARNU

### ARGYMHELLIAD 1 - DYLID YCHWANEGU CORONAFEIRWS SARS AT Y RHESTR

Am fod Coronafeirws SARS yn bodloni gofynion Adran 58 o'r Ddeddf, un o argymhellion adolygiad Lightfoot yw y dylid ei ychwanegu at Atodlen 5.

### OPSIWN 1 - GWNEUD DIM

#### COSTAU

Os na chaiff Coronafeirws SARS ei ychwanegu at y rhestr, gallai gael ei gadw mewn safleoedd anniogel a gallai gael ei ddwyn a'i gamddefnyddio gan derfysgwyr. Felly, os na chaiff y sylwedd hwn ei ychwanegu at y rhestr sylweddau, gallai'r risg y caiff ei gamddefnyddio gynyddu. Fel enghraifft, yn ôl costau economaidd a chymdeithasol troseddau yn erbyn unigolion a chartrefi 2003/04 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref (diweddarwyd i brisiau 2008), cost gyfartalog marwolaeth oedolyn yw £1.8 miliwn; cost anafiadau difrifol yw £25,092 a chost mân anafiadau yw £9,866. Hefyd, mae ymosodiadau terfysgol yn effeithio ar CMC, a hynny yn sgîl eu heffaith ar dwristiaeth a'u heffaith ar fewnfuddsoddiad; a byddai costau anariannol hefyd yn cael eu creu gan ofn a chostau cyfleoedd mewn perthynas â mesurau diogelwch ychwanegol. Pe câi Coronafeirws SARS ei gamddefnyddio'n llwyddiannus, byddai'r costau tebygol i gymdeithas yn uchel.

Buddiannau

Dim.

### OPSIWN 2 - YCHWANEGU AT Y RHESTR

#### COSTAU

Dim ond un labordy sy'n cadw'r sylwedd hwn yn y DU. Mae'r labordy hwn yn cadw sylweddau eraill a restrir yn Atodlen 5 hefyd ac mae eisoes yn cydymffurfio â'r mesurau gofynnol. Ni fydd

unrhyw gostau ychwanegol i'r labordy oherwydd, yn ymarferol, nid oes modd lleihau'r gost o gadw sylweddau atodlen 5, h.y. mae'n costio'r un faint i gadw un sylwedd ag y mae i gadw deg. Mae'r labordy hwn hefyd yn rhan o gyfundrefn archwilio'r CTSAs lleol felly ni fydd costau gorfodi ychwanegol (gan gymryd na fydd yr ychwanegiad hwn yn gwneud yr archwiliad yn hirach). Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw labordai eraill y bydd angen iddynt gadw'r sylwedd hwn yn y dyfodol agos.

### BUDDIANNAU

Pe byddai mwy o fesurau diogelwch ar gyfer y pathogen hwn, byddai'n anos i derfysgwyr gael gafael arno, gan helpu i amddiffyn y cyhoedd ac o bosibl leihau'r risg y caiff ei ddefnyddio.

Cwestiwn yr ymgynghoriad: a oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr? A yw ymgyngoreion yn gallu cadarnhau na fydd ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr yn creu unrhyw faich ychwanegol? A yw ymgyngoreion yn rhagweld y bydd angen i unrhyw labordai eraill gadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos?

### OPSIWN 1 - GWNEUD DIM

#### COSTAU

Os na chaiff Coronafeirws SARS ei ychwanegu at y rhestr, gallai gael ei gadw mewn safleoedd anniogel a gallai gael ei ddwyn a'i gamddefnyddio gan derfysgwyr. Felly, os na chaiff y sylwedd hwn ei ychwanegu at y rhestr sylweddau, gallai'r risg y caiff ei gamddefnyddio gynyddu. Fel enghraifft, yn ôl costau economaidd a chymdeithasol troseddau yn erbyn unigolion a chartrefi 2003/04 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref (diweddarwyd i brisiau 2008), cost gyfartalog marwolaeth oedolyn yw £1.8 miliwn; cost anafiadau difrifol yw £25,092 a chost mân anafiadau yw £9,866. Hefyd, mae ymosodiadau terfysgol yn effeithio ar CMC, a hynny yn sgîl eu heffaith ar dwristiaeth a'u heffaith ar fewnfuddsoddiad; a byddai costau anariannol hefyd yn cael eu creu gan ofn a chostau cyfleoedd mewn perthynas â mesurau diogelwch ychwanegol. Pe câi Coronafeirws SARS ei gamddefnyddio'n llwyddiannus, byddai'r costau tebygol i gymdeithas yn uchel.

Buddiannau

Dim.

### OPSIWN 2 - YCHWANEGU AT Y RHESTR

#### COSTAU

Dim ond un labordy sy'n cadw'r sylwedd hwn yn y DU. Mae'r labordy hwn yn cadw sylweddau eraill a restrir yn Atodlen 5 hefyd ac mae eisoes yn cydymffurfio â'r mesurau gofynnol. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i'r labordy oherwydd, yn ymarferol, nid oes modd lleihau'r gost o gadw sylweddau atodlen 5, h.y. mae'n costio'r un faint i gadw un sylwedd ag y mae i gadw deg. Mae'r labordy hwn hefyd yn rhan o gyfundrefn archwilio'r CTSAs lleol felly ni fydd costau gorfodi ychwanegol (gan gymryd na fydd yr ychwanegiad hwn yn gwneud yr archwiliad yn hirach). Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw labordai eraill y bydd angen iddynt gadw'r sylwedd hwn yn y dyfodol agos.

BUDDIANNAU

Pe byddai mwy o fesurau diogelwch ar gyfer y pathogen hwn, byddai'n anos i derfysgwyr gael gafael arno, gan helpu i amddiffyn y cyhoedd ac o bosibl leihau'r risg y caiff ei ddefnyddio.

Cwestiwn yr ymgynghoriad: a oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu hychwanegu at y rhestr? A yw ymgyngoreion yn gallu cadarnhau na fydd ychwanegu Coronafeirws SARS at y rhestr yn creu unrhyw faich ychwanegol? A yw ymgyngoreion yn rhagweld y bydd angen i unrhyw labordai eraill gadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos?

Argymhelliad 2 – Dylid dileu Mycobacteriwm twbercwlosis, Clostridiwm perfringens (pathogen), Cryptococws neoformans a Cladoffialoffora bantiana o'r rhestr

Nid ystyrir y gall y sylweddau hyn achosi niwed difrifol os cânt eu defnyddio gan derfysgwr a gellir cael gafael arnynt yn hawdd ym myd natur; felly mae adolygiad Lightfoot yn argymell y dylid eu dileu o Atodlen 5.

### OPSIWN 1 - GWNEUD DIM

#### COSTAU

Dim.

Os caiff sylweddau nad oes fawr ddim risg y gall terfysgwyr eu camddefnyddio eu gadael ar y rhestr, gall hyn danseilio hygrededd y ddeddfwriaeth ac arwain at achosion o dorri'r ddeddfwriaeth. Byddai cynyddu neu gynnal mesurau diogelwch ffisegol a diogelwch personél nad ydynt yn gymesur â'r risg a berir gan y sylweddau hynny yn rhoi baich diangen ar fusnesau bach.

#### BUDDIANNAU

Nid oes unrhyw fudd o gadw sylweddau nad ydynt yn peri risg derfysgol o fewn cwmpas y Ddeddf.

### OPSIWN 2 - DILEU SYLWEDDAU O'R RHESTR

#### COSTAU

Ni fyddai dileu unrhyw rai o'r sylweddau o'r rhestr yn creu costau ychwanegol.

#### BUDDIANNAU

Byddai dileu sylweddau nad oes fawr ddim risg y gall terfysgwyr eu camddefnyddio o gwmpas y Ddeddf yn lleihau beichiau diogelwch ffisegol a diogelwch personél diangen ar labordai.

- Mae 200 o labordai clinigol yn cadw Mycobacteriwm twbercwlosis. Mae'r labordai hyn yn cadw sylweddau eraill yn Atodlen 5 o bryd i'w gilydd ac felly byddent yn ddarostyngedig i'r Ddeddf o hyd.

- Mae 300 o labordai yn cadw Clostridiwm perfringens (pathogen). Nid oes unrhyw un o'r rhain yn cadw unrhyw sylweddau eraill yn Atodlen 5. Byddai dileu Clostridiwm perfringens (pathogen) o Atodlen 5 yn cael gwared ar ofynion diogelwch amrywiol sy'n gymwys i'r labordai, gan arbed tua £10,000 y flwyddyn i bob labordy.

- Mae 200 o labordai clinigol yn cadw Cryptococws neoformans. Mae'r labordai hyn yn cadw sylweddau eraill yn Atodlen 5 o bryd i'w gilydd ac felly byddent yn ddarostyngedig i'r Ddeddf o hyd.

- Mae dau labordy yn cadw Cladoffialoffora bantiana. Nid oes unrhyw un o'r rhain yn cadw unrhyw sylweddau eraill yn Atodlen 5. Byddai dileu Cladoffialoffora bantiana o Atodlen 5 yn cael gwared ar ofynion diogelwch amrywiol sy'n gymwys i'r labordai, gan arbed tua £10,000 y flwyddyn i bob labordy.

Dileu baich = £3,020,000 y flwyddyn (gweler uchod). Mae hyn yn creu Gwerth Presennol Net o £25.1M dros ddeng mlynedd.

Dim archwiliad i 302 o labordai.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad: ym marn ymgyngoreion, a oes unrhyw sylweddau eraill y dylid eu dileu o Atodlen 5? A yw labordai yn cytuno â'r arbedion a amcangyfrifir? Os ydynt yn anghytuno, a yw ymgyngoreion yn gallu amcangyfrif yr arbedion blynyddol sy'n debygol pe na bai angen mesurau diogelwch ffisegol na mesurau diogelwch personél?**

**Argymhelliad 3 - Dylai mathau o ffliw pandemig gael eu hailddiffinio fel y gellir categoreiddio mathau unigol yn ôl eu bygythiad i iechyd pobl. Opsiynau: gwneud dim neu ailgategoreiddio'r gwahanol fathau o ffliw.**

Mae'r categorïau o feirysau ffliw yn ystyried bygythiad gwirioneddol pob math unigol i iechyd pobl ac yn argymell gwahanol lefelau o ddiogelwch ffisegol a diogelwch personél yn seiliedig ar y bygythiad hwnnw. Dim ond tri labordy sy'n cadw mathau o ffliw pandemig ac mae'r rhain eisoes yn dod o dan gwmpas y Ddeddf, felly ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r labordai nac i awdurdodau gorfodi. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw labordai sy'n bwriadu cadw'r sylweddau hyn yn y dyfodol agos.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad: A all ymgyngoreion gadarnhau na fydd ailgategoreiddio feirysau ffliw pandemig yn seiliedig ar eu bygythiad yn creu costau ychwanegol i labordai nac i awdurdodau gorfodi?**

Yn gyffredinol mae argymhellion yr adolygiad a arweiniwyd gan yr Athro Lightfoot yn cadarnhau'r trefniadau presennol ac yn cynnig y dylid dileu sylweddau penodol. Felly ystyrir eu bod yn symleiddio trefniadau ac y byddant yn lleihau costau diogelwch diangen.

## DD. RISGIAU

### ARGYMHELLIAD 1 - DYLID YCHWANEGU CORONAFEIRWS SARS AT ATODLEN 5

Rhagdybiaeth nad oes unrhyw labordai eraill yn bwriadu defnyddio/cadw Coronafeirws SARS yn y dyfodol agos.

### ARGYMHELLIAD 2 – DYLID DILEU MYCOBACTERIWM TWBERCWLOSIS, CLOSTRIDIWM PERFRINGENS (PATHOGEN), CRYPTOCOCWS NEOFORMANS A CLADOFFIALOFFORA BANTIANA O ATODLEN 5

Mae costau blynyddol yn cynnwys mesurau diogelwch fel systemau teledu cylch cyfyng, rheoli mynediad, fetio personél.

### ARGYMHELLIAD 3 - AILDDIFFINIO MATHAU O FFLIW PANDEMIG

Rhagdybiaeth nad oes unrhyw labordai eraill yn debygol o ddefnyddio/cadw'r sylweddau hyn yn y dyfodol agos ac na fydd y newidiadau o ran categorïau yn ychwanegu safonau diogelwch mwy beichus na'r rhai sydd ar waith eisoes.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan chwe labordy yn cefnogi ein hasesiad o'r costau a'r buddiannau a'r opsiwn a ffefrir gennym, sef derbyn yr argymhellion.

## E. GORFODI

Mae'r pathogenau a'r tocsinau yn Atodlen 5 yn seiliedig ar asesiadau risg a dim ond sylweddau risg uchel a restrir er mwyn osgoi cyfyngu ar gynnydd gwyddonol.

Mae CTSAs yn rhoi cyngor am ddim i safleoedd.

## F. CRYNODEB AC ARGYMHELLION

Yr opsiwn a ffefrir yw derbyn yr argymhellion. Aseswyd nad yw Argymhellion 1 a 3 yn ychwanegu at gostau labordai na chostau gorfodi. Amcangyfrifwyd y gall Argymhelliad 2 arwain at arbedion blynyddol o tua £3 miliwn.

## FF. GWEITHREDU

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn ar 6 Hydref 2011 os bydd y pwyllgorau cabinet perthnasol yn cytuno arnynt.

## G. MONITRO A GWERTHUSO

Caiff effeithiolrwydd y gyfundrefn newydd ei fonitro drwy brosesau adolygu, a hynny bob dwy flynedd o bosibl er mwyn cyd-fynd â datblygiadau gwyddonol.

NG. ADBORTH

Croesawn unrhyw adborth i gyfeiriad e-bost yr ymgynghoriad: ATCSAconsultation@homeoffice.x.gsi.gov.uk.

# ATODIAD 1: CYNLLUN YR ADOLYGIAD ÔL-WEITHREDU (PIR)

Dylid cynnal PIR, fel arfer tair i bum mlynedd ar ôl rhoi'r polisi ar waith, ond o dan amgylchiadau eithriadol efallai y bydd cyfnod hirach yn fwy priodol. Dylai PIR ystyried i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y rheoliadau a roddwyd ar waith, asesu eu costau a'u buddiannau gwirioneddol a chanfod p'un a ydynt yn achosi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Lluniwch y Cynllun PIR fel y manylir isod. Os nad oes bwriad i gynnal PIR nodwch y rhesymau isod.

| |
|---|
| **Sail yr adolygiad:** [Efallai bod sail statudol dros gynnal yr adolygiad (ei fod yn rhan o'r ddeddfwriaeth), efallai fe'i cynhelir i adolygu polisi presennol neu efallai bod ymrwymiad gwleidyddol i gynnal adolygiad]; |
| Sicrhau y caiff clefydau newydd a datblygiadau gwyddonol eu hystyried. |
| **Amcan yr adolygiad:** [A fwriedir iddo fod yn adolygiad cymesur i wirio bod y rheoliad yn gweithredu yn ôl y disgwyl i fynd i'r afael â'r broblem dan sylw?; neu yn ymchwiliad ehangach i'r dull polisi a gymerwyd?; neu yn gysylltiad rhwng amcan y polisi a'i ganlyniad?] |
| Gweler uchod. |
| **Dull a rhesymeg yr adolygiad:** [e.e. disgrifiwch y dull adolygu (gwerthuso manwl, adolygu cwmpas y data monitro, astudiaeth o farn rhanddeiliaid, ac ati) a'r rhesymeg dros ddewis dull o'r fath] |
| Grŵp o Arbenigwyr Trawslywodraethol ac Academaidd. |
| **Llinell sylfaen:** [Y sefyllfa (llinell sylfaen) bresennol y gellid mesur y newid a gyflwynwyd yn sgîl y ddeddfwriaeth yn ei herbyn] |
| **Meini prawf llwyddiant:** [Meini prawf sy'n dangos sut y cyflawnir amcanion y polisi fel y nodwyd yn yr asesiad effaith terfynol; meini prawf ar gyfer newid neu ddisodli'r polisi os na fydd yn cyflawni ei amcanion] |
| **Trefniadau o ran gwybodaeth fonitro:** [Rhowch fanylion pellach am y trefniadau arfaethedig/presennol sydd ar waith i sicrhau y gellir casglu gwybodaeth fonitro mewn ffordd systematig er mwyn adolygu'r polisi yn y dyfodol] |
| **Rhesymau dros beidio â chynllunio PIR:** [Os nad oes bwriad i gynnal PIR nodwch y rhesymau yma] |

# ATODIAD 2. PROFION EFFAITH PENODOL

## DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB STATUDOL

### ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Yn unol â chyngor y Tîm Gweithredu Amrywiaeth Strategol, bydd yr asesiad o effaith a'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

### ASESIAD O'R GYSTADLEUAETH

Mae'n annhebygol y bydd y diwygiadau i'r Ddeddf yn effeithio ar gystadleuaeth.

### PRAWF EFFAITH AR GWMNÏAU BACH

Bydd y Llywodraeth yn ystyried yn ofalus, ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a yw unrhyw faich newydd a roddir ar fusnesau bach yn gymesur â'r risg o derfysgaeth. Ychydig iawn o gwmnïau bach sy'n gwneud gwaith microbioleg.

## EFFAITH AR GYFIAWNDER

Byddwn yn ystyried sut y bydd y newidiadau i Atodlen 5 yn effeithio ar y troseddau a'r cosbau sifil cyfredol yn y maes hwn. Y nod yw atal troseddau newydd diangen rhag cael eu creu.

**ISBN:** 978-1-84987-432-8

HO_01768_G